## Cwestiynau ffocws a awgrymir ar gyfer y gweithgaredd hwn

| Tasg 1 | |
|---|---|
| **Beth ydym ni'n ei wybod am greu seiniau?** | • Ym mha ddulliau fyddech chi'n gallu creu sain?<br>• Pa un yw eich hoff ddull? Pam?<br>• Beth sy'n digwydd i greu'r sain hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut fyddech chi'n gallu gwneud y sain yn gryfach/dawelach? Pam fyddai hyn yn ei wneud yn gryfach/dawelach?<br>• Sut fyddech chi'n gallu gwneud y sain yn is/uwch? Sut fyddai hyn yn ei wneud yn is/uwch?<br>• Beth sy'n creu'r sain? Pam ydych chi'n meddwl hyn?<br>• Sut mae sain yn teithio a chyrraedd eich clust? Sut ydych chi'n gwybod hyn? |

| Tasg 2 | |
|---|---|
| **Archwilio offerynnau cerdd** | • Sut mae pob offeryn yn edrych?<br>• O ba ddefnyddiau y mae pob offeryn wedi ei wneud? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Beth yw siâp pob offeryn?<br>• Ym mha ffordd mae'r offerynnau hyn yn wahanol i'w gilydd?<br>• Ym mha ffordd mae'r offerynnau hyn yn debyg i'w gilydd?<br>• Pa sain ydych chi'n meddwl y bydd yr offeryn hwn yn ei greu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut fyddech chi'n creu sain gyda'r offeryn hwn? Pam ei wneud fel hyn?<br>• Ym mha ffordd y mae'r seiniau sy'n cael eu creu gan yr offerynnau hyn, yn wahanol? Pam ydych chi'n meddwl hyn?<br>• Beth fyddech chi'n gallu ei wneud i bob offeryn i newid cryfder y sain? Sut fyddai hyn yn newid y cryfder?<br>• Beth fyddech chi'n gallu ei wneud i bob offeryn i newid traw y sain? Sut fyddai hyn yn newid y traw? |

| Tasg 3 | |
|---|---|
| **Cynllunio beth i'w wneud yn y man awyr agored** | • Pa fath o offeryn fyddech chi'n hoffi ei wneud? Pam?<br>• Sut fyddech chi'n gallu gwneud y math hwn o offeryn cerdd?<br>• Pa ddefnyddiau fyddai eu hangen arnoch chi? Pam fyddai angen y pethau hyn arnoch chi?<br>• Beth fyddech chi'n gallu chwilio amdano yn y man/ amgylchedd awyr agored a fyddai'n eich helpu i wneud yr offeryn? Pam fyddai'r pethau hyn yn eich helpu?<br>• Pa fathau o bethau fyddech chi'n gallu eu casglu wrth ymweld â'r man/amgylchedd awyr agored? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut fyddech chi'n gallu defnyddio'r rhain i wneud gwahanol fathau o offerynnau cerdd?<br>• Sut fyddwch chi'n cofnodi eich syniadau ar y daflen gynllunio? Pam ei wneud fel hyn? |

| Tasg 4 | |
|---|---|
| **Casglu defnyddiau i wneud offeryn cerdd** | • Pa fathau o bethau ydych chi am eu casglu? Pam?<br>• Sut fyddech chi'n defnyddio'r rhain i wneud offeryn cerdd?<br>• Sut ydych chi am ddod o hyd i'r pethau yr ydych chi eisiau eu casglu? Pam ei wneud fel hyn? A oes ffordd well? Pam?<br>• Sut fyddwch chi'n defnyddio eich cynllun? Pam ei ddefnyddio fel hyn?<br>• Pa mor dda wnaeth eich cynllun weithio? Oedd o'n hawdd ei ddilyn? Pam?<br>• Sut fyddech chi'n gallu gwella eich cynllun? Pam fyddech chi'n ei wella?<br>• Pa eitemau ar eich rhestr oedd yn anodd dod o hyd iddynt? Pam ydych chi'n meddwl hyn? |

| Tasg 5 | |
|---|---|
| **Gwneud offeryn cerdd** | • Pa eitemau ydych chi wedi eu casglu?<br>• Sut fyddech chi'n gallu defnyddio'r eitemau hyn i greu seiniau? Pam eu defnyddio fel hyn?<br>• Pa fath o offerynnau ydych chi am eu gwneud? Pam?<br>• Sut fyddwch chi'n ei wneud?<br>• Sut fyddwch chi'n defnyddio'r eitemau yr ydych wedi eu casglu fel rhan o'r offeryn?<br>• Pa ddefnyddiau eraill sydd eu hangen arnoch i wneud eich offeryn? Pam fod angen y defnyddiau hyn arnoch? |

| Tasg 6 | |
|---|---|
| **Cyfansoddi darn o gerddoriaeth** | • Beth ydych chi am ei wneud gyntaf? Pam?<br>• Beth yw pwrpas y gerddoriaeth y byddwch yn ei chyfansoddi?<br>• Pa fathau o emosiynau ydych chi eisiau eu cyfleu trwy'r gerddoriaeth? Sut fyddwch chi'n gwneud hyn? Pam ei wneud fel hyn?<br>• Sut fyddech chi'n gallu defnyddio'r offerynnau yr ydych wedi eu creu? Pa ddulliau y byddwch chi'n eu defnyddio? Pam?<br>• Pa offerynnau eraill fyddech chi'n gallu eu defnyddio i helpu?<br>• Sut ydych chi'n bwriadu strwythuro eich cyfansoddiad?<br>• Sut allwch chi sicrhau bod y geiriau'n cyd-fynd â'r alaw?<br>• Pa rythm fyddwch chi'n ei ddefnyddio? Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn addas?<br>• Sut ydych chi am gadw amser gyda'ch gilydd? Pa strategaethau ydych chi wedi eu defnyddio o'r blaen?<br>• Oes angen cyflwyniad arnoch chi? Pam?<br>• A ddylai'r cytgan a'r penillion gael eu perfformio yn yr un ffordd neu mewn ffordd wahanol?<br>• Beth yw'r manteision a'r anfanteision i'w hystyried?<br>• Sut fyddech chi'n gallu diweddu'r gân? Pa effaith ydych chi eisiau ei chael?<br>• Beth mae angen i chi ei ystyried wrth berfformio eich cân? Sut ydych chi'n gwybod hyn?<br>• Sut ydych chi am gofio eich syniadau ar gyfer y tro nesaf? |